


Addysgu, dysgu ac asesu'r gyfraith ym maes addysg gwaith cymdeithasol



Addysgu, dysgu ac asesu'r gyfraith ym maes addysg gwaith cymdeithasol

Cyflwyniad

Os nad yw gweithwyr cymdeithasol yn gyfarwydd â'r gyfraith berthnasol a sut i'w gweithredu gall y canlyniadau fod yn ddifrifol i ddefnyddwyr gwasanaethau, ymarferwyr a rheolwyr.

Mae'r *Requirements for social work training* gan Adran Iechyd y DU yn gosod pwyslais mawr ar ddysgu, addysgu ac asesu'r gyfraith. Nod yr adolygiad o wybodaeth hwn yw nodi arferion da yn y meysydd hyn trwy gynnal:

- adolygiad o ddamcaniaethau rhyngwladol a gwaith ymchwil
- arolwg o addysg gyfredol gwaith cymdeithasol y DU
- ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid, yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

Prif gasgliadau

Pam addysgu'r gyfraith?

Mae'r wybodaeth yn dangos bod y berthynas rhwng y gyfraith a gwaith cymdeithasol yn amrywio o wlad i wlad. Fodd bynnag, mae

gwybodaeth o'r gyfraith yn ofyniad craidd ar gyfer cyrff proffesiynol yn y DU. Hebdi, ni all gweithwyr cymdeithasol:

- roi cyngor i gleientiaid neu weithredu'n effeithiol ar eu rhan
- cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol
- cyfathrebu mewn ffordd addas â gweithwyr proffesiynol eraill
- hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a hawliau dynol.

Rhaid i weithwyr cymdeithasol allu cwestiynu gweithdrefnau, swyddogaethau ac effeithiau cymdeithasol y gyfraith. Yn ogystal â chyflawni'u gwaith yn fedrus, rhaid iddynt feddwl mewn ffordd feirniadol.

Mae'r wybodaeth yn nodi nad yw'r berthynas rhwng cyfreithwyr a gweithwyr cymdeithasol yn dda bob tro, ac er gwaetha'r ffaith bod cydweithio gan yr asiantaethau a'r proffesiynau'n cael mwy o flaenoriaeth, ychydig iawn o enghreifftiau sydd o fyfyrwyr y gyfraith a gwaith cymdeithasol yn cyd-ddysgu, a does dim tystiolaeth o gwbl ynglŷn ag effeithiolrwydd hyn.

O ran ymarfer dysgu, mae'r pwyslais ar drosglwyddo gwybodaeth i fyfyrwyr a datblygu eu gallu i'w chymhwyso mewn sefyllfaoedd cymhleth go iawn.

Beth ddylid ei ddysgu?

Mae'r wybodaeth yn dadlau bod angen i weithwyr cymdeithasol fod yn gyfarwydd â'r cefndir cyfreithiol – swyddogaeth y gyfraith mewn cymdeithas a'i heffaith gymdeithasol, er enghraifft – yn ogystal â chyfreithiau a rheoliadau sy'n berthnasol i grwpiau cleientiaid penodol. Yn yr un modd, dylai myfyrwyr allu cymhwyso'u gwybodaeth gyfreithiol i sgiliau fel dadansoddi polisi, ymchwil cyfreithiol a sgiliau ymarferol craidd fel cofnodi, eiriolaeth, ysgrifennu adroddiadau a datrys problemau.

Mae rhaglenni addysg cyfredol y DU yn canolbwyntio'n bennaf ar ddeddfwriaeth yn ymwneud â gofal cymunedol, gofal plant ac iechyd meddwl. Mae ganddynt amcanion amrywiol o ran sicrhau dyfnder ac ehangder gwybodaeth. Ymhlith y pynciau eraill a all fod yn rhan o'r rhaglenni mae cyfiawnder troseddol, tai, gofal iechyd a chyflogaeth.

Yn ôl llawer o addysgwyr gwaith cymdeithasol, mae eu gwaith yn addysgu'r gyfraith yn pwysleisio gwerthoedd sylfaenol, ac mae pob rhaglen yn cynnwys y *Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*. Mae pwysigrwydd safbwynt moesegol hefyd yn cael ei gydnabod gan academyddion a defnyddwyr gwasanaethau.

Ar y cyfan, mae yna gytundeb cyffredinol y dylai addysg gyfreithiol ganolbwyntio ar y math o amgylchiadau a fydd yn berthnasol i weithwyr

cymdeithasol yn eu sefyllfaoedd gwaith. Fodd bynnag, mae llawer o raddedigion yn dweud eu bod yn ei chael hi'n anodd cymhwyso'u gwybodaeth i sefyllfaoedd go iawn.

Sut y dylid addysgu'r gyfraith?

Mae'r wybodaeth yn gofyn i ba raddau y dylai'r gyfraith gael ei haddysgu ar wahân neu ei hintegreiddio â gweddill y cwricwlwm. Nid oes dystiolaeth bendant o blaid y naill neu'r llall.

Mae addysgwyr yn dweud bod addysgu'r gyfraith ar wahân yn eu helpu i ddiffinio a rheoli'r cynnwys, ond bod angen mwy o stamina o du'r myfyrwyr. Mae gan addysgu integredig y fantais o bwysleisio sgiliau ymarferol a chymhwyso. Yn ymarferol, mae rhaglenni'n tueddu i gyflwyno'r gyfraith fel pwnc ar wahân ac wedyn ei ddatblygu'n nes ymlaen o fewn modiwlau eraill. Mae nifer yr oriau sy'n cael eu neilltuo i ddysgu'r gyfraith yn benodol yn amrywio'n fawr.

Mae'r wybodaeth yn argymhell y dylid defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu ac mae'n nodi bod myfyrwyr hefyd yn ffafrio dulliau amrywiol. Ymhlith y dulliau a ddisgrifir y mae astudiaethau achos, dysgu trwy ddatrys problemau, a dulliau wedi'u seilio ar wneud penderfyniadau neu 'ecoleg' (hynny yw, rhoi ystyriaeth i gysylltiadau a chefnidir ehangach cleientiaid). Ychydig o dystiolaeth bendant sydd ar gael, serch hynny, ynglŷn â pha ddulliau sydd fwyaf effeithiol.

Mae ymarfer dysgu academaidd cyfredol yn tueddu i ffafrio system o ddarlithoedd ac ymarferiadau grŵp. Ymhlith y dulliau eraill y mae seminarau, ymchwil annibynnol sy'n cael ei arwain, gweithdai sgiliau a dysgu trwy ddefnyddio cyfrifiaduron (bydd hyn yn fwy cyffredin yn y dyfodol agos). Mae defnyddio astudiaethau achos yn gyffredin iawn. Mae dysgu trwy ddatrys problemau'n ddull sy'n cynnwys myfyrwyr mewn ffordd ymarferol, ac mae'n boblogaidd iawn hefyd.

Mae defnyddwyr gwasanaethau yn dweud y dylai'r gyfraith fod yn rhan bwysig o'r cwricwlwm drwyddo draw ac y dylid ei chysylltu â datblygu sgiliau gwaith ymarferol wrth ymdrin â phobl. Maen nhw hefyd yn nodi y byddai myfyrwyr yn elwa o'u mewnbwn a'u profiad.

Mae'r wybodaeth yn nodi bod y cwricwlwm ar gyfer addysg gyfreithiol barhaus mewn lleoliadau ac mewn swyddi wedi'i esgeuluso, ac nad yw llawer o athrawon yn teimlo'n gymwys i helpu myfyrwyr i ddysgu am y gyfraith. Mae'r arolwg ymarfer yn cefnogi'r casgliadau hyn: ar hyn o bryd nid yw'r rhan fwyaf o raglenni ymarfer yn cynnwys amcanion addysgu ffurfiol sy'n berthnasol i'r gyfraith ar gyfer myfyrwyr sydd ar leoliad. Ond mae athrawon ymarfer yn tueddu i dynnu sylw at y ffaith bod cyd-destun gwaith achos a gwaith ysgrifenedig yn cynnwys elfennau cyfreithiol yn aml iawn. Fodd bynnag, nid yw myfyrwyr yn fodlon gyda'r agwedd hon o'u dysgu ac maen nhw'n ei chael yn anodd iawn rhoi

eu gwybodaeth ar waith. Ym marn defnyddwyr gwasanaethau mae addysg tra ar leoliad yn gyfle heb ei ail i ddysgu sut i gymhwyso'r gyfraith i sefyllfaoedd penodol.

Pwy ddylai addysgu'r gyfraith?

Mae'r wybodaeth adolygedig yn argymhell y dylai athrawon unigol a'r staff cyfan feddu ar gydbwysedd amrywiol o arbenigedd o ran y gyfraith a gwaith cymdeithasol. Unwaith eto, mae prinder tystiolaeth bendant ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio orau. Mae rhaglenni cyfredol yn gwneud defnydd o amrywiaeth eang o staff, a chefnogir y dull cynhwysol hwn gan ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae defnyddwyr gwasanaethau hefyd yn dymuno chwarae rhan ymarferol.

Sut y dylid asesu myfyrwyr?

Argymhellir dulliau asesu sy'n berthnasol i'r hyn a ddisgwylir gan weithwyr cymdeithasol wrth iddynt gyflawni eu gwaith a gwneud penderfyniadau. Ymhlith yr enghreifftiau y mae astudiaethau achos, senarios estynedig, asesu llafar, gwaith prosiect, hunanasesu ac asesu gan gymheiriaid. Ymddengys fod myfyrwyr yn mwynhau tasgau datrys problemau ac ymarferion llafar, ac roedd cwestiynau aml-ddewis yn effeithiol. Fodd bynnag, nid oes ymchwil ar gael ynglŷn â pha ddulliau sy'n effeithiol o ran darogan y wybodaeth sy'n cael ei chadw.

Ar hyn o bryd caiff myfyrwyr eu hasesu'n bennaf ar sail eu gwaith cwrs, arholiadau neu gyfuniad o'r ddau. Nod yr asesu yw profi'r wybodaeth ei hun a'r gallu i'w chymhwyso. Mae rhai rhaglenni hefyd yn profi sgiliau dadansoddi beirniadol ac integreiddio'r gyfraith gyda gwerthoedd gwaith cymdeithasol.

Casgliadau

Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth yn ddisgrifiadol, yn ddamcaniaethol ac wedi'i seilio ar hanesion personol, ac mae yna ddiffyg tystiolaeth bendant sy'n gwerthuso'r dulliau amrywiol.

Mae'r dulliau addysgu ac asesu cyfredol yn tueddu i adlewyrchu'r sgiliau y mae gweithwyr cymdeithasol eu hangen wrth gyflawni'u gwaith. Fodd bynnag, mae amryw o ddulliau addysgu fel pe baent yn addas ar gyfer y gyfraith, ac nid oes barn unfrydol ar y cyfuniad gorau. Ar wahân i ffocws cyffredin ar gymhwyso'r gyfraith ynghyd â rhai elfennau cyffredin o ran cynnwys, mae cwricwla'r rhaglenni gwahanol yn amrywio'n fawr. Mae addysg ar ei mwyaf effeithiol pan fo myfyrwyr yn ymddiddori yn y pwnc dan sylw, ond mae rhai myfyrwyr yn cael anhawster i gymhwyso'r gyfraith wrth ddadansoddi'n feirniadol ac wrth ymdrin â materion moesegol.

Ar hyn o bryd esgeulusir yr arfer o barhau i addysgu myfyrwyr am y gyfraith pan fônt ar leoliad ymarfer ac mewn swyddi, ac mae angen i raglenni unioni'r cam hwnnw trwy, er enghraifft,

sicrhau bod y gyfraith yn rhan ffurfiol o'r cwricwlwm a thrwy gefnogi athrawon.

Bellach mae angen mwy o ymchwil rheolaidd i'r hyn sy'n galluogi myfyrwyr i ennill a chadw gwybodaeth a sgiliau cyfreithiol.

Cyhoeddiadau eraill sydd ar gael gan SCIE

DYSGU AC ADDYSGU YM MAES ADDYSG GWAITH CYMDEITHASOL: ASESU

Beth R. Crisp, Mark R. Anderson,

Joan Orme a Pam Green Lister

1 904812 00 7

Tachwedd 2003

DYSGU, ADDYSGU AC ASESU YM MAES ADDYSG GWAITH CYMDEITHASOL: GWERSLYFRAU A FFRAMWEITHIAU ASESU

Beth R. Crisp, Mark R. Anderson, Joan Orme

a Pam Green Lister

1 904812 21 X

Ebrill 2005

ADDYSGU A DYSGU'R GYFRAITH YM MAES ADDYSG GWAITH CYMDEITHASOL

Suzy Braye, Michael Preston-Shoot ac Enid Levin

Medi 2005

Addysgu, dysgu ac asesu'r gyfraith ym maes addysg gwaith cymdeithasol

Cyhoeddir yr adolygiad o Wybodaeth llawn gan SCIE. Mae ar gael ar ein gwefan ac ar ffurf copi caled gan SCIE. Mae holl gyhoeddiadau ac adnoddau SCIE am ddim.

Gellir gofyn am y cyhoeddiad hwn
mewn fformat arall.

Social Care Institute for Excellence
Goldings House, 2 Hay's Lane
Llundain SE1 2HB
ffôn 020 7089 6840
ffacs 020 7089 6841
ffôn testun 020 7089 6893
www.scie.org.uk